# Deuddeg Dydd y Nadolig

Traddodiadol tr Owain Gethin Davies ac Osian Rowland

CânSing

## Lefel

Canolradd

## Ynglŷn â'r gân hon

Mae hon yn garol Nadolig Saesneg sy'n cyfeirio at nifer gynyddol o anrhegion mawreddog a roddir ar bob un o'r deuddeg diwrnod o'r Nadolig, mae hi'n enghraifft o gân gronnus.

## Cwmpas lleisiol

11fed




## Ffurf leisiol

Unsain/rhan annibynnol

## Thema/testun

Naolig/Carol/Rhifedd

## Elfennau Cerddorol


Gwead a Strwythur

## Nodweddion Cerddorol

Unsain a canu mewn harmoni, strwythur cân gronnus.

## Ymarferion

- ♪ Gofynnwch i'r dysgwyr anadlu'n ddwfn ac yna hisian neu chwythu'r aer allan yn araf, mae angen iddynt gyfrif faint o amser maent yn cymryd i chwythu'r aer allan. Dylid ailadrodd yr ymarfer hwn ac annog pob dysgwr i wella ar yr amser blaenorol.
- ♪ Yna, gofynnwch i'r dysgwyr i gydbwyso ar un goes a cylchdroi'r goes arall mewn symudiad cylchol, gan ddechrau gyda'r ffêr, yna'r pen-gliniau ac yn olaf y cluniau. Dylent wneud hyn i gyfeiriad y cloc ac yna'n wrthglocwedd, cyn ailadrodd gyda'r goes arall.
- ♪ Gofynnwch i bawb hymian fel sain seiren, gan symud i fyny ac i lawr mewn traw, Dylai pawb ddilyn eich llaw o fod yn uchel yn yr awyr i fod yn isel iawn wrth eich pengliniau.
- ♪ Dangos y rhythm nodweddiadol:




## Ymarferion CânSing a argymhellir

- ♪ Ymarfer Lleisiol 9 (Tisian)
- ♪ Ymarfer Ynganiad 1 (Cwlwm Tafod)
- ♪ Ymarfer Lleisiol 2 (Ffidl didl ffal)
- ♪ Ymarfer Corff 4 (Ymestyn ac Ymlacio)

## Addysgu a Dysgu

1 Chwaraewch recordiad o'r pennill cyntaf ychydig o weithiau, dylai dysgwyr ganolbwyntio ar wrando ar y symudiad cam a naid sydd yn yr alaw a chlapio'r rhythm neu siantio'r geiriau .

2 Pan fydd y dysgwyr yn gyfarwydd â'r geiriau , ewch ati i ymarfer alaw rhan 1 yn unsain. Canwch neu chwaraewch y frawddeg gyntaf amryw o weithiau yn ddelfrydol yn ddigyfeiliant neu wrth ddefnyddio'r trac cefndir CânSing. Ceisiwch weithio drwy'r pennill gan wneud yn siŵr bod dysgwyr yn dilyn y rhan yn gywir.

3 Perfformiwch y pennill cyntaf yn unsain gyda'r recordiad gan atgoffa'r dysgwyr i ganu drwy'r holl frawddegau a chynnal y nodyn hir ar ddiwedd pob brawddeg.

4 Cyflwynwch rhan 2 o'r pennill cyntaf, mae'r tri nodyn cyntaf yr un fath a rhan 1 sef (C) yna mae'r rhan yn bennaf yn symud mewn harmoni. Gwnewch yn siwr nad yw ansawdd y sain yn dirywio wrth ganu nodau dro ar ôl tro.

5 Pan fydd yr holl ddysgwyr yn hyderus gyda rhan 2 o'r pennill cyntaf, rhannwch nhw'n ddau grŵp cyfartal. Rhowch yr alaw (Rhan 1) i'r grŵp Coch a'r rhan harmoni (Rhan 2 ) i'r grŵp porffor. Os bydd y dysgwyr yn cael trafferth gyda brawddeg penodol, gofynnwch iddynt wrando arnoch chi neu'r trac ac yna ymuno mewn.

6 Ceisiwch berfformio mewn dwy ran yn ddigyfeiliant neu heb y recordiad. Newidiwch y rhannau drosodd fel bod pawb yn cael cyfle i ganu'r ddwy ran.

7 Efallai y byddwch yn teimlo bod dysgu'r pennill cyntaf mewn harmoni deulais yn ddigon ar gyfer un sesiwn ac yn penderfynu i fynd i'r afael â'r drydedd ran yn y pennill cyntaf yn y sesiwn nesaf.

8 Cyflwynwch rhan 3 (harmoni) y pennill cyntaf. Mae'r ddau nodyn cyntaf yr un fath a rhan 1 sef (C) yna mae'r rhan yn bennaf yn symud mewn harmoni. Ceisiwch weithio drwy'r pennill, gan wneud yn siŵr bod dysgwyr yn dilyn y rhan yn gywir ac yn canolbwyntio ar ymuno mewn yn y lleoliad cywir.

9 Pan fydd yr holl ddysgwyr yn hyderus â'r rhan hon rhannwch y grŵp yn dri grŵp cyfartal. Rhowch yr alaw (rhan 1 ) i un grŵp a'r rhannau harmoni i'rddau grŵp arall (rhan 2 a 3).

10 Ar ôl ymarfer y pennill cyntaf yn drylwyr ceisiwch berfformio gyda'r recordiad.

Hawlfraint © CaST Cymru 2013

# Deuddeg Dydd y Nadolig

## Camau nesaf

- Mae yna ddeuddeg pennill yn y gân mewn tri rhan, mae'r penillion yn dechrau yn union yr un fath ond yn cynnwys cymal newydd sydd yn cael ei ychwanegu ym mhob pennill. Darllenwch drwy eiriau pennill 2 ac ymarfer pob rhan cyn ceisio canu'r rhannau gyda'i gilydd. Pan fyddwch yn hapus gyda'r ail bennill perfformiwch y gân o'r cychwyn cyn symud ymlaen at y trydydd pennill.
- Mae hon yn gân hir sy'n gofyn am lawer o reolaeth anadl a chanolbwyntio i'w chanu'n dda. Dylai dysgwyr ganolbwyntio ar gywirdeb rhythm a tonyddiaeth wrth ymarfer.
- Ceisiwch berfformio'r gân cyfan mewn tair rhan heb unrhyw gyfeiliant fel bod y dysgwyr yn gwrando'n ofalus iawn ar sain yr harmoni. Mae angen i'r geiriau fod yn glir iawn, gyda chytseiniaid cryf a ffocws ar y llafariaid.

## Perfformio, cyfansoddi a gwerthuso

- Mewn grwpiau bychan, gall y dysgwyr ddefnyddio'r geiriau a rhythm y pennill cyntaf i gyfansoddi alaw newydd sy'n cynnwys un naid a gweddill y symudiadau melodig yn symud fesul cam gan ddefnydio'r raddfa bentatonig yn F (CDFGA).
- Gwrandewch ar recordiad o'r gân a gofynnwch i'r dysgwyr i wneud sylwadau ar y gwead, cyflymder a dynameg a thrafod rhinweddau carol Nadolig.
- Gallai dysgwyr drefnu'r gân ar gyfer offerynnau neu leisiau, a pharatoi ar gyfer perfformiad yn y gwasanaeth.
- Dysgwch garol Nadolig arall wrthgyferbyniol, er enghraifft, 'Dawel Nos'. Pan fydd y dysgwyr yn gyfarwydd â hon, gallent gymharu'r ddwy garol Nadolig a rhoi sylwadau ar y strwythur, cyflymder a rhythm.

## Asesu ar gyfer dysgu a datblygu meddwl

### Cwestiynu

**Adnodd: Cwestiwn Mawr**

- Yn eich barn chi a oedd hon yn gân hawdd neu'n anodd i'w ddysgu?
  Beth yw eich rhesymau?
  A oes pwynt gwahanol o farn o fewn y grŵp?
  Sut fyddech chi yn gwella neu oresgyn hyn yn y dyfodol?

### Adborth

**Adnodd: Adborth ar unwaith**

Rhowch adborth i'r dysgwyr ar unwaith yn ystod y broses addysgu a dysgu; gallai'r adborth fod ar eu gallu i gynnal eu rhan wrth ganu mewn harmoni. Yn dilyn y broses ddysgu rhwoch adborth ar eu gallu i ymateb i'ch cyfarwyddiadau llaw wrth newid y lefelau dynameg.

### Hunan asesiad/Asesiad gan gyfoedion

**Adnodd: Partneriaid siarad**

- Mae angen i ddysgwyr rhannu gyda phartner dri pheth newydd y maent wedi eu dysgu, beth oedd yn hawdd neu'n anodd, beth mae angen iddynt wella, rhywbeth yr hoffent ei ddysgu nesaf.

Hawlfraint © CaST Cymru 2013